


Gosod rheolaethau prisiau ar gyfer 2015-20 – methodoleg derfynol a disgwyliadau ar gyfer cynlluniau busnes cwmnïau

Nodyn briffio cryno ar gyfer rhanddeiliaid





Cyflawni gwell canlyniadau ar gyfer cwsmeriaid heddiw ac yfory

Mae cwsmeriaid cwmnïau dŵr a charthffosiaeth yn haeddu gwasanaeth rhagorol am bris teg. Fodd bynnag, ni all y rhan fwyaf o gwsmeriaid ddewis eu cyflenwr. Yn hytrach, maent yn derbyn eu gwasanaethau gan un neu ragor o gyflenwyr monopoli. Felly, ein rôl ni yw diogelu eu buddiannau drwy reoleiddio'r cwmnïau monopoli hyn.

Yn 2014-15, byddwn yn penderfynu ar becyn pris a gwasanaeth (y 'rheolaethau prisiau') y bydd yn rhaid i bob un o'r cwmnïau monopoli dŵr a charthffosiaeth a dŵr yn unig yng Nghymru a Lloegr eu darparu ym mhob un o'r pum mlynedd rhwng 2015 a 2020.

Rydym nawr wedi cyhoeddi 'Gosod rheolaethau prisiau ar gyfer 2015-20 – methodoleg derfynol a disgwyliadau ar gyfer cynlluniau busnes cwmnïau' (ein 'datganiad methodoleg derfynol'), sy'n amlinellu sut y byddwn yn gosod y rheolaethau prisiau hynny.

Mae hyn hefyd yn cynnwys:

- ein disgwyliadau o ran y wybodaeth y dylai pob cwmni dŵr ei chynnwys yn ei gynllun busnes, gan amlinellu ei gynigion ar gyfer y pum mlynedd nesaf; a
- sut y byddwn yn adolygu ac yn herio'r cynlluniau hynny.

Rydym wedi datblygu ein dull ar gyfer gosod rheolaethau prisiau dros y tair blynedd diwethaf. Roedd hyn yn cynnwys siarad gyda, a gwranddo ar, ymhlith eraill:

- cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr;
- y cwmnïau dŵr a buddsoddwyr;
- Llywodraethau'r DU a Chymru; a
- rheoleiddwyr amgylcheddol ac ansawdd.

Mae'r nodyn briffio hwn yn crynhoi ein methodoleg derfynol a beth mae'n ei olygu ar gyfer cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill. Rydym hefyd yn amlinellu'r camau nesaf yn y broses adolygu prisiau.

Trosolwg

Rydym am i gwsmeriaid fod wrth galon strategaethau busnes cwmnïau dŵr. Mae hyn yn unol â ffordd o feddwl Llywodraethau'r DU a Chymru ac mae hefyd yn rhan allweddol o'n cynllun hirdymor ar gyfer sector dŵr cynaliadwy. Mae ein methodoleg derfynol yn nodi fframwaith modern ac wedi ei ddiweddarau ar gyfer gosod prisiau sy'n cefnogi twf economaidd, effeithlonrwydd a chynaliadwyedd.

Mae hyn yn cynnwys:

- grymuso cwsmeriaid heddiw drwy roi llais cryfach iddynt ynglŷn â sut y mae cwmnïau yn darparu gwasanaethau a faint y mae cwsmeriaid yn ei dalu amdanynt;

- diogelu anghenion cwsmeriaid y dyfodol drwy sicrhau bod cwmnïau'n cynllunio sut y byddant yn darparu cyflenwadau sicr a chynaliadwy dros yr hirdymor;
- annog cwmnïau i gynhyrchu cynlluniau o safon uchel yn seiliedig ar eu rhwymedigaethau cyfreithiol ac ymgysylltiad effeithiol â chwsmeriaid – a rhoi iddynt ragor o berchnogaeth am gyflawni'r cynlluniau hynny;
- herio cwmnïau i gadw costau'n isel a rhoi gwell gwerth i gwsmeriaid a'r amgylchedd;
- diogelu'r amgylchedd drwy annog cwmnïau i ddefnyddio adnoddau prin yn ofalus ac ystyried atebion mwy cynaliadwy ar gyfer darparu gwasanaethau;
- cynnal y sefydlogrwydd a'r tryloywder y mae buddsoddwyr yn eu gwerthfawrogi ac a fydd yn eu hannog i barhau i ariannu buddsoddiad hirdymor; a
- datgelu gwybodaeth newydd gan gwmnïau i wella sut y byddwn yn gosod rheolaethau prisiau yn y dyfodol ac yn parhau i ddiogelu buddiannau cwsmeriaid.

Ar y cyfan, mae ein methodoleg yn rhoi'r hyblygrwydd a'r offer i gwmnïau i ymateb i'r heriau gan eu cwsmeriaid, rhanddeiliaid amgylcheddol a gwneuthurwyr polisi.

Yn yr adran nesaf, rydym yn crynhoi pob un o brif rannau ein methodoleg a beth fydd ein methodoleg gyffredinol yn ei olygu i wahanol rhanddeiliaid.

Targedu rheolaethau

Rydym eisiau annog cwmnïau i wneud y pethau iawn ar gyfer eu cwsmeriaid a'r amgylchedd ar draws eu busnesau. Felly byddwn yn gosod pedwar rheolaeth pris ar gyfer pob cwmni dŵr a charthffosiaeth – un yr un ar gyfer gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth manwerthol i gwsmeriaid preswyl a dibreswyl (busnes), un ar gyfer gwasanaethau dŵr cyfanwerthol ac un ar gyfer gwasanaethau charthffosiaeth cyfanwerthol. Byddwn ond yn gosod dau reolaeth pris ar gyfer cwmnïau dŵr yn unig.

Bydd targedu rheolaethau prisiau yn caniatáu i ni osod gwell gwobrau a chosbau ('cymhellion') ar gyfer gwahanol rannau'r cwmnïau er mwyn hannog i wella'r gwasanaethau y maent yn eu cynnig i gwsmeriaid a'r amgylchedd – a'r pris y byddant yn ei godi am wneud hyn.

Er enghraifft, bydd rheolaethau prisiau manwerthu yn annog cwmnïau yn Lloegr i baratoi ar gyfer yr adeg pan fydd yr holl gwsmeriaid dibreswyl yn gallu dewis eu cyflenwyr. Yn amodol ar ddeddfwriaeth, disgwyliar i hyn ddigwydd yn 2017.

Rheoleiddio cymesur

Rydym am i gwmnïau gymryd cyfrifoldeb ac atebolrwydd llawn dros gynllunio a rheoli eu busnes. Felly ni fyddwn yn gosod gofynion manwl ynglŷn â'r hyn y disgwyliwn i bob cwmni ei gynnwys yn ei gynllun – oni bai am wybodaeth benodol sydd ei hangen arnom i osod rheolaethau prisiau.


Yn hytrach, byddwn yn defnyddio cyfres o brofion i adolygu safon cynllun pob cwmni. Gwneir hyn fel ein bod yn gallu canolbwyntio ar y meysydd a'r cwmnïau hynny lle ceir y risgiau mwyaf i gwsmeriaid a'r amgylchedd ('adolygiad seiliedig ar risg'). Byddwn yn rhoi un o dri graddiad i gwmnïau – 'uwch', 'safonol' neu 'ailgyflwyno'. Bydd y cwmnïau â'r graddiad gorau ('uwch') yn cael eu gwobrwyo gyda llai o graffu, rhagor o ddewis o wobrau ariannol a phenderfyniadau cynharach.

Canolbwyntio ar ddarparu

Rydym am i gwmnïau ganolbwyntio ar ddarparu'r gwasanaethau y mae eu cwsmeriaid am eu cael. Felly rydym wedi mabwysiadu dull a arweinir gan y cwsmer ac a berchnogir gan y cwmni sy'n eu canolbwyntio ar ddarparu'r pethau y mae cwsmeriaid yn eu gwerthfawrogi.

- Ar gyfer pob un rhan o'i fusnes sydd â rheolaeth pris bydd pob cwmni'n cytuno gyda'i gwsmeriaid ar gyfres o amcanion hirdymor y bydd yn eu cyflawni ('canlyniadau') a'r gwobrau a'r cosbau y dylai eu derbyn am drosgyflawni neu dangyflawni'r canlyniadau hyn ('cymhellion cyflawni canlyniadau'). Rydym hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i gwmnïau osod canlyniad – a chymhellion cysylltiedig – ar leihau gollyngiadau.
- Bydd adroddiadau a baratowyd gan [grwpiau her cwsmeriaid](#) – grwpiau annibynnol o gynrychiolwyr cwsmeriaid a rheoleiddwyr ansawdd – yn dweud wrthym sut mae pob cwmni wedi ymgysylltu â'i gwsmeriaid. Byddwn yn defnyddio'r adroddiadau hyn fel rhan o'n hadolygiad seiliedig ar risg.
- Byddwn yn gosod cymhellion gwasanaeth cenedlaethol cyson er mwyn annog cwmnïau i ddarparu gwell gwasanaeth cwsmeriaid i gwsmeriaid preswyl – a dibreswyl yng Nghymru. Byddwn yn diogelu cwsmeriaid dibreswyl yn Lloegr drwy reoleiddio cwmnïau sy'n defnyddio tariffau diofyn – gan osod isafswm lefel gwasanaeth sy'n rhaid ei gyflawni ac uchafswm pris y gellir ei godi.

Ein methodoleg derfynol – crynodeb



* SIM – mecanwaith cymhelliant gwasanaeth

** AIM – mecanwaith cymhelliant echdynnu dŵr

Sicrhau gwerth am arian

Mae cwmnïau dŵr effeithlon ac effeithiol yn dda ar gyfer yr economi. Gall buddsoddiad gynorthwyo i gefnogi twf economaidd a – phan y'u targedir yn y modd cywir – gallant leihau'r perygl yn y dyfodol bod cwsmeriaid yn talu prisiau uwch neu'n cael cyfyngiadau amlach ar y dŵr a ddefnyddiant.

Felly, ar gyfer rheolaethau pris cyfanwerthu pob cwmni byddwn yn:

- defnyddio dull cyfanswm gwariant ('totex') ar gyfer asesu costau cwmnïau, a ddylai gynorthwyo i gael gwared ar y tuedd y gall cwmnïau ei gael tuag at atebion cyfalaf-ddwys – ac o bosibl drytach – ar gyfer darparu gwasanaethau;
- rhoi dewis i bob cwmni ynglŷn â'i lefel risg a gwobr er mwyn eu hannog i roi rhagolygon cywir o'u costau ('rheoleiddio dewislen'); a
- chaniatáu i bob cwmni gynnig y gyfran o'i wariant i gael ei adennill gan gwsmeriaid presennol ac yn y dyfodol, fel ei bod yn deg i'r ddau grŵp.

Ar gyfer rheolaethau prisiau manwerthu byddwn yn:

- defnyddio costau gwirioneddol pob cwmni i benderfynu ar gyfartaledd cost i wasanaethu cwsmeriaid preswyl, er mwyn annog y cwmnïau hynny sydd â chostau uwch i'w lleihau – a'r rheiny sydd â chostau is i wneud hyd yn oed yn well;
- defnyddio strwythurau tariff a gynigir pob cwmni i benderfynu ar y tariffau diofyn y dylent eu darparu i gwsmeriaid dibreswyl yn Lloegr, er mwyn lleihau'r effaith negyddol ar gwsmeriaid a ddaw gyda gosod tariffau cenedlaethol; a
- chynnwys her effeithlonrwydd i gwmnïau yng Nghymru – yn seiliedig ar gymhariaeth gyda chwmnïau cyfatebol yn Lloegr – er mwyn eu hannog i ddarparu gwasanaethau o werth gwell i gwsmeriaid dibreswyl yng Nghymru.

Defnyddio adnoddau'n well

Rydym eisiau annog cwmnïau i reoli cyflenwadau dŵr yn fwy cynaliadwy, tra'n gwella effeithlonrwydd. Gall masnachu dŵr gynorthwyo i ddatgelu gwir werth yr adnodd gwerthfawr hwn, a fydd yn cynorthwyo cwmnïau i wneud penderfyniadau gwell ynglŷn â lle i fuddsoddi a sut i gydbwysu'r cyflenwad a'r galw am ddŵr. Felly byddwn yn:

- cyflwyno cymhelliant ariannol i annog cwmnïau i fasnachu dŵr gyda'i gilydd pan mai hwn fydd y dewis mwyaf effeithlon; a
- chyflwyno cymhelliant anariannol (y 'mecanwaith cymhelliant echdynnu') er mwyn annog cwmnïau i ffynonellu dŵr ('ei echdynnu') o fan lle nad yw'n gwneud difrod i'r amgylchedd. Byddwn yn defnyddio'r cymhelliant hwn i restru cwmnïau a'u cymharu o ran eu perfformiad mewn lleihau echdyniadau dŵr sy'n creu difrod – gyda'r bwriad o'i gryfhau yn y dyfodol. Gall cwmnïau unigol hefyd gynnig eu gwobrau a'u cosbau ariannol eu hunain yn y maes hwn fel rhan o'u cymhelliannau cyflawni canlyniadau.

Cydbwysu risgiau a gwobrau

Rydym eisiau gwneud yn siŵr bod cwmnïau effeithlon yn derbyn tâl priodol o ganlyniad i'r risgiau y maent yn eu hysgwyddo wrth ddarparu gwasanaethau. Gwneir hyn fel bod gan fuddsoddwyr posibl hyder i fenthylg yr arian sydd ei angen arnynt ar gyfer buddsoddiad hirdymor. Rydym hefyd eisiau bod yn siŵr nad yw cwsmeriaid yn cael eu rhoi'n agored i risgiau amhriodol ac annisgwyl o ganlyniad i'r strwythurau ariannol y mae cwmnïau'n eu mabwysiadu. Felly byddwn yn:

- gosod lwfans ar ben costau manwerthu cwmnïau i adlewyrchu'r risgiau iddynt o ddarparu gwasanaethau manwerthu ('maint elw manwerthu');
- parhau i ddefnyddio'r gwerth cyfalaf rheoleiddiol (RCV) – gwerth busnes rheoledig pob cwmni – ac un gost gyfartalog cyfalaf wedi ei phwysoli (WACC) tybiannol – yr enillion ariannol y tybiwn y bydd eu hangen ar gwmnïau i ddenu ariannu – er mwyn rhoi tâl i gwmnïau am y risgiau iddynt hwy o ddarparu gwasanaethau cyfanwerthu; a
- chyflwyno fframwaith i adolygu ac asesu risgiau a berir i gwsmeriaid gan strwythurau ariannol cwmnïau.

Datgelu gwybodaeth

Rydym am barhau i wella'r ffordd yr ydym yn gosod rheolaethau prisiau yn y dyfodol er mwyn parhau i ddiogelu buddiannau cwsmeriaid. Er mwyn gwneud hyn mae angen i ni ddatgelu gwell gwybodaeth am y gweithgareddau y mae cwmnïau'n eu gwneud mewn rhai meysydd arbennig. Felly, yn ystod 2015-20 byddwn yn:

- annog cwmnïau i ddatgelu gwybodaeth ynglŷn â'u rhwydwaith dŵr a charthffosiaeth a'u gweithgareddau triniaeth drwy gyflwyno rheolaethau prisiau yn raddol iddynt yn y meysydd hyn; a
- chyflwyno system adrodd ar gyfer cwmnïau ar reoli eu rhwydweithiau dŵr a charthffosiaeth a llaid carthion.

Darparu'r pecyn cyffredinol cywir

Rydym eisiau gwneud yn siŵr bod y rheolaethau prisiau cyffredinol a osodir gennym yn rhoi'r canlyniad gorau posibl ar gyfer cwsmeriaid presennol a rhai'r dyfodol. Felly, cyn y byddwn yn gosod rheolaethau prisiau cwmnïau byddwn yn:

- edrych ar fforddiadwyedd ac ariannu er mwyn gwneud yn siŵr nad yw ein gwahanol elfennau rheolaeth prisiau – pan y'u cyfunir – yn cael effaith negyddol sylweddol ar gwsmeriaid na'r cwmnïau; ac
- addasu rheolaethau prisiau pob cwmni er mwyn adlewyrchu eu perfformiad yn ystod 2010-15.

Beth mae ein cynigion yn ei olygu ar gyfer rhanddeiliaid

Cwsmeriaid

Llais cryfach yn y broses adolygu prisiau. Rhaid i gwmnïau ddatblygu canlyniadau – a chymhellion cysylltiedig – sydd wedi eu cefnogi gan eu cwsmeriaid.

Byddwn yn profi cynlluniau cwmnïau i wirio pa mor dda y maent wedi gwrandao ar eu cwsmeriaid – a pha mor fforddiadwy y maent ar gyfer cwsmeriaid.

Bydd rheolaethau manwerthu yn paratoi cwsmeriaid i roi gwell dewis i gwsmeriaid dibreswyl pan fydd marchnadoedd yn agor.

Cwmnïau

Bydd gan bob cwmni fwy o berchnogaeth ac atebolrwydd o ran ei gynllun.

Bydd gan bob cwmni fwy o ryddid i ddatblygu sut y mae'n darparu gwasanaethau.

Rhagor o gyfleoedd i wobrwyo arloesedd.

Caiff cwmnïau gyda chynlluniau o safon uwch eu gwobrwyo gyda llai o graffu, rhagor o ddewis a phenderfyniadau cyflymach.

Camau nesaf

Byddwn nawr yn defnyddio ein methodoleg i osod rheolaethau prisiau cwmnïau. Y cam allweddol nesaf yn y broses adolygu prisiau yw i bob cwmni anfon ei gynllun busnes atom erbyn 2 Rhagfyr 2013. Bydd y CCG hefyd yn cyflwyno eu hadroddiadau erbyn y dyddiad hwn.

Byddwn yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r amserlen ar gyfer yr adolygiad prisiau yn yr Hydref.

Edrychwn ymlaen at ymgysylltiad cynhyrchiol parhaus, ac ymglymiad, ein holl rhanddeiliaid drwy gydol y broses gosod prisiau.

Yr amgylchedd

Bydd cwmnïau'n canolbwyntio ar ganlyniadau hirdymor – yn cynnwys rhwymedigaethau statudol – fel y gallant ddod o hyd i ffyrdd mwy cynaliadwy i ddarparu gwasanaethau.

Nid oes gan gwmnïau duedd tuag at atebion cyfalaf-ddwys ac adnoddau-ddwys mwyach.

Anogir cwmnïau i fasnachu dŵr er mwyn defnyddio adnoddau gwerthfawr yn fwy gofalus.

Anogir cwmnïau i ffynonellu dŵr o ardaloedd sydd ddim yn gwneud difrod i'r amgylchedd naturiol.

Buddsoddwyr

Fframwaith rheoleiddiol sefydlog, tryloyw a rhagfynegadwy.

Byddwn yn parhau i osod rheolaethau prisiau cyfanwerthu gan ddefnyddio offer sydd wedi ei brofi – yn cynnwys defnyddio'r cysyniad cyfarwydd o werth cyfalaf rheoleiddiol (RCV).

Rhagor o gyfleoedd i gwmnïau arloesi ac allberfformio ein tybiaethau.

Mae cyfarwyddwr bob cwmni yn atebol am safon ei gynllun – a'r cyfle i ennill gwobrau drwy gyflwyno cynllun o safon uwch.

Mae Ofwat (yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr) yn adran llywodraeth anweinidogol. Rydym yn gyfrifol am sicrhau bod y sectorau dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr yn darparu gwasanaeth o ansawdd da ac effeithlon i gwsmeriaid am bris teg.

Rhagor o wybodaeth

I gael manylion llawn ein methodoleg a'n disgwyliadau cynllunio busnes darllenwch '[Gosod rheolaethau prisiau ar gyfer 2015-20 – methodoleg derfynol a disgwyliadau ar gyfer cynlluniau busnes cwmnïau](#)'.

Gallwch hefyd gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â gosod prisiau ar ein gwefan yn www.ofwat.gov.uk/pricereview.



Ofwat
Centre City Tower
7 Hill Street
Birmingham B5 4UA

Ffôn: 0121 644 7500
Ffacs: 0121 644 7699
Gwefan: www.ofwat.gov.uk
E-bost: mailbox@ofwat.gsi.gov.uk

Ffotograff c Stockvault
Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys isafswm o 75% o bapur gwastraff ôl-ddefnyddiwr wedi ei ddad-incio Gorffennaf 2013
© Hawlfraint y Goron 2013

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) am ddim ac mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v2.0. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/2> neu e-bostiwch psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle yr ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon atom yn mailbox@ofwat.gsi.gov.uk.

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd ar ein gwefan yn www.ofwat.gov.uk.

OGL

www.ofwat.gov.uk